# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Hannah Richards**

**Llandysul**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 11 Rhagfyr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Hannah Gaynor Richards wedi bod yn warchodwr plant cofrestredig ers 2002 ac mae'n rhoi gofal i uchafswm o bedwar plentyn hyd at 12 oed. Mae'n gweithredu o'i chartref yn Llandysul. Mae ar agor rhwng 8am a 6am o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

1. **Asesiad cyffredinol**
   Mae'r plant yn mwynhau ystod eang o weithgareddau arloesol a diddorol. Maent yn hapus, wedi setlo'n dda ac mae ganddynt lais hynod o gryf. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffordd o fyw iach ac mae ardal awyr agored sydd ag adnoddau da y gall y plant ei defnyddio. Mae hi'n adnabod y plant yn dda iawn ac yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau chwarae ysgogol. Mae'r amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac yn gyfforddus ac yn canolbwyntio ar y plant. Mae dewis eang o adnoddau ar gael i'r plant. Mae gan y gwarchodwr plant sgiliau gweinyddol gwych ac mae ei dogfennau a'i chofnodion yn drefnus.

2. **Gwelliannau**
   Mae'r gwarchodwr plant wedi prynu cyfarpar awyr agored newydd megis whilberi, taenellwyr dŵr, bygis a chafn dŵr.

3. **Gofynion ac argymhellion**
   Dim

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo'n dda ac yn amlwg yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Mae'r gweithgareddau a'r profiadau chwarae yn hynod ddiddorol ac yn gyffrous iddynt. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn mynegi eu hunain mewn ffordd hyderus. Maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd, y gwarchodwr plant ac oedolion eraill.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn hyderus iawn wrth fynegi eu hunain ac yn gwybod bod y staff yn gwrando arnynt.

Roedd y plant yn mynegi eu barn yn gyson ac yn hyderus ac yn gofyn am help pan roedd ei angen.  Yn ystod gweithgaredd sticio, gofynnodd y plant yn hyderus i'r gwarchodwr plant eu helpu i dynnu'r cefn oddi ar eu sticeri. Roeddent yn gwybod y byddai'n ymateb yn gadarnhaol iddynt a dechreuodd y gwarchodwr plant dynnu'r sticer oddi yno, gan alluogi'r plentyn i gwblhau'r broses a thynnu'r gweddill oddi yno. Dewisodd y plant liw, maint a siâp y sticeri roeddent am eu cael yn ogystal â ble i'w gosod ar eu darn o waith. Sgwrsiodd y plant yn hapus â'r gwarchodwr plant ynglŷn â'u cartrefi a gwnaethant ei chynnwys yn eu chwarae. Gwnaethant roi paneidiau o de a bwyd chwarae rôl iddi a thrafod eu hanifeiliaid fferm. Roedd y plant ifanc wrth eu bodd pan wnaeth eu cleber heb eiriau a'u hystumiau llaw dderbyn ymateb cadarnhaol. Er enghraifft, cododd un plentyn ifanc ei freichiau gan ddangos ei fod am gael ei gario. Rhwbiodd y plentyn ei wyneb yn erbyn gwddf y gwarchodwr plant a rhoddodd wên enfawr iddi wrth iddi ei gario. Roedd y plant ifanc iawn yn gallu cael gafael ar y teganau drostynt eu hunain. Penderfynodd un plentyn ei fod am chwarae gyda threfnwr siapiau ac aeth ati i nôl y tegan dros ei hun.

Mae gan y plant lais hynod o gryf.

### 1.2 I ba raddau mae’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi setlo, yn gyfforddus ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Roedd y plant yn hapus iawn ac yn awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau yn ystod ein hymweliad. Roeddent yn gyfarwydd iawn â'r arferion dyddiol a'r amgylchedd. Roeddent yn gwybod ble i ddod o hyd i adnoddau ac yn mynd ar eu hôl yn annibynnol. Aeth y plant i nôl doliau, cerbydau, llyfrau a blociau pryd bynnag yr oeddent yn dymuno. Gwnaeth y plant fwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau yn ogystal ag amser tawel. Roedd y plant wedi ymlacio ddigon i gwympo i gysgu'n annibynnol mewn cot yn yr ystafell wely fyny'r grisiau. Rhoddodd y gwarchodwr plant degan meddal iddynt, gwnaeth ganu hwiangerdd iddynt wrth ddringo'r grisiau ac roeddent yn teimlo'n gwbl gyfforddus. Roedd gan y plant dywel llaw unigol i sychu eu dwylo ar ôl eu golchi. Ar ôl gorffen gweithgaredd crefft, gwnaeth y gwarchodwr plant

dynnu llinell o amgylch llaw y plant ac ysgrifennu eu henwau ar gefn eu gwaith crefft. Roedd y plant yn falch iawn o ddangos eu crefft a'u print llaw unigol ar gefn eu gwaith. Gwnaeth pob plentyn bobi ac addurno cacen i ddathlu eu pen-blwyddi. Roedd y plant yn mwynhau ailadrodd straeon am eu pen-blwyddi a phobi ac addurno cacen siocled gyda'r gwarchodwr plant.

Mae'r plant bob amser yn teimlo'n hynod ddiogel ac yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

## 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn gartrefol wrth iddynt ryngweithio.

Roedd y plant yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus ac yn rhannu teganau ac adnoddau â'i gilydd. Gwnaeth dau blentyn gydweithio i adeiladu tŵr tal. Gwnaeth y plentyn ieuengaf ddymchwel y tŵr ac roedd y plant eraill wrth eu bodd gyda hyn gan wichian chwerthin mewn ymateb. Yna dechreuodd y plant ailadeiladu'r tŵr eto a galluogi'r plentyn ieuengaf i'w ddymchwel dro ar ôl tro. Gwnaeth y plant ddosbarthu'r teganau yn eu plith wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, rhoddodd un plentyn fwyd chwarae rôl i blentyn arall wrth iddynt chwarae yn y gegin chwarae rôl. Gwnaeth plentyn hŷn roi mwythau i ben plentyn iau yn annwyl. Pan wnaeth y gwarchodwr plant drafod y gweithgareddau y gwnaeth y plentyn hŷn gymryd rhan ynddynt, byddai'r plentyn hŷn yn ychwanegu enw'r plentyn iau. Er enghraifft, gwnaeth y gwarchodwr plant drafod eu hymweliad i'r parc. Roedd y plentyn hŷn yn mynnu enwi'r plentyn iau gan ddweud ei fod yno hefyd. Roedd y plentyn hŷn yn amlwg yn hoff iawn o'r plentyn iau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n eithriadol o dda

## 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau dilyn eu diddordebau eu hunain, dechrau eu chwarae dychmygus eu hunain yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau a gynllunnir.

Roedd y plant yn archwilio'r amgylchedd yn ddirwystr ac yn mynd i nôl adnoddau'n hyderus yn ôl eu dymuniad. Canodd y plant yn hapus yn dawel bach wrth iddynt chwarae ar y llawr a gwthio cerbydau o amgylch. Gofynnodd y plant a fyddent yn gallu gwneud jig-sos ac aethant ati'n hapus i gwblhau un ar ôl y llall ac roeddent yn mynd yn anoddach fesul un.   Chwaraeodd y plant â chyfarpar chwarae rôl ac esgus trwsio gwahanol wrthrychau. Gwnaeth y plant ymfywiogi a chyffroi pan oedd hi'n amser cymryd rhan yn y gweithgaredd crefft. Gwnaethant fwynhau dewis amrywiaeth o ddail o liwiau, siapiau a meintiau gwahanol i'w gludo ar eu draenogod. Canolbwyntiodd y plant am gyfnod hir, gan bilio'r sticeri oddi ar gefn y dail a'u sticio ar y draenog yr oeddent eisoes wedi'i baentio. Goleuodd wynebau'r plant wrth iddynt drafod taith ddiweddar i'r afon lle y gwnaethant daflu cerrig i'r dŵr. Roedd y plant ifanc yn gallu trafod pa wrthrychau oedd yn arnofio ac yn suddo gan eu bod wedi cael profiad o'r gweithgareddau hyn wrth ymweld â'r afon.

Gwnaeth y plant fwynhau eu hamser gyda'r gwarchodwr plant yn fawr ac roeddent yn ffynnu ar yr amrywiaeth o weithgareddau ysgogol.

**1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?**

Mae'r plant yn gwneud cynnydd rhagorol ac maent yn hyderus wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd.

Gwnaeth y plant ifanc gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ysgogol a oedd yn hyrwyddo eu datblygiad. Er enghraifft, wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd celf a chrefft, roedd y plant yn gallu enwi lliwiau'r dail. Gwnaeth y plant drafod pa anifeiliaid oedd yn cysgu drwy'r gaeaf a phaentio eu draenogod a'u dail hydrefol. Cafodd y plant sawl cyfle i ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, gwnaeth y plant dacluso ar wahanol adegau yn ystod ein hymweliad ac roeddent yn gwybod lle yr oedd angen storio pob tegan. Gwnaethant fwyta eu cinio'n annibynnol gan ddefnyddio cyllyll a ffyrc bach ac roeddent yn yfed eu dŵr o'u biceri. Gwnaethant olchi a sychu dwylo yn annibynnol a defnyddio eu tywel llaw unigol. Gwnaethant bilio'r sticeri'n annibynnol a'u gludo ar eu draenogod. Ar ôl newid eu cewynnau, gwnaethant helpu i gario'r sach a oedd yn cynnwys y cewyn i'r bin cywir cyn golchi a sychu eu dwylo. Cymerodd y plant ifanc ran mewn gweithgareddau y disgwylir eu gweld gyda phlant hŷn megis dal llyfr yn gywir, troi'r tudalennau a chwblhau jig-sos. Trafododd y plant rinweddau'r gwrthrychau. Er enghraifft, wrth gwblhau jig-so, dywedodd un plentyn ifanc fod y jig-so wedi'i greu allan o bren a'i fod yn galed, ac y byddai'n arnofio yn yr afon.

Mae'r plant yn cael eu cymell yn eithriadol i ddatblygu a dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio gweithgareddau ysgogol ac amrywiol sy'n cyfrannu'n sylweddol at ddysgu a datblygiad y plant. Mae ganddi wybodaeth gynhwysfawr o anghenion unigol y plant yn ei gofal. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu ffyrdd iach o fyw ac yn cadw'r plant yn ddiogel.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn polisïau a gweithdrefnau yn rhagweithiol.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth wych o weithdrefnau amddiffyn plant ac roedd wedi mynychu cwrs ym mis Mawrth 2018. Rhoddodd amlinelliad clir o'i hymateb pe bai ganddi unrhyw bryderon. Roedd hi'n ymwybodol o'r ddyletswydd i atal plant rhag cael eu radicaleiddio ac roedd ganddi bolisi ar waith. Roedd hi wedi paratoi asesiad risg cynhwysfawr ar gyfer yr ardal dan do a'r ardal awyr agored. Roedd cyfarpar diogelwch megis blancedi tân, amddiffynnwr tân a giatiau diogelwch yno. Roedd y cofnodion yn dangos ymarferion tân rheolaidd. Roedd hi wedi cofrestru â'r adran diogelwch bwyd leol ac yn cadw cofnod dyddiol o dymheredd yr oergell. Gwnaeth y gwarchodwr plant roi amrywiaeth o brydau maethlon i'r plant yn ei gofal. Yn ystod ein hymweliad, cafodd y plant sglodion pysgod, pys, india-corn a thatws a dŵr i'w yfed. Roedd chwarae yn yr awyr agored yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth, ond oherwydd tywydd garw, ni welsom y plant yn chwarae yn yr awyr agored. Fodd bynnag, roedd lluniau o blant yn mwynhau yn yr ardal awyr agored yn cael eu harddangos yn y gegin ac roedd holiaduron y plant yn cadarnhau bod y plant yn mwynhau chwarae yn yr ardd.

Mae'r gwarchodwr plant yn llwyddo i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio mewn ffordd bwrpasol â'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant yn fodel rôl gwych ac roedd hi'n dyner ac yn amyneddgar gyda'r plant. Treuliodd amser yn egluro pethau i'r plant gan achub ar bob cyfle i ymestyn eu hiaith.  Cyfeiriodd yn ôl at brofiadau blaenorol y plant er mwyn datblygu eu dealltwriaeth. Er enghraifft, pan wnaeth plentyn dynnu jig-so pren allan, gofynnodd i'r plentyn p'un a oedd yn gwybod beth oedd y deunydd. Atebodd y plentyn gan ddweud "pren", (wood), ac aeth y gwarchodwr plant ymlaen i ofyn i'r plentyn am wead y jig-so a dywedodd “yn galed.”(hard). Gofynnodd y gwarchodwr plant i'r plentyn lle arall yr oedd wedi gweld pren o'r blaen a chofiodd y plentyn am fod ger yr afon yn archwilio'r deunyddiau a oedd yn arnofio a'r rheini a oedd yn suddo. Roedd hi'n canmol y plant yn gyson wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, pan wnaeth plentyn bilio sticer oddi yno'n annibynnol dywedodd "Da iawn ti!" a phan wnaeth plentyn gwblhau ei ddraenog o gelf a chrefft dywedodd, "Dwi yn hoffi dy ddraenog. Mae e yn lliwgar iawn. Da iawn ti!" (I

like your hedgehog. It is very colourful.  Well done!).  Roedd y plant ifanc yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod ein hymweliad. Roedd y gwarchodwr plant yn datblygu eu sgiliau iaith a rhifedd yn rheolaidd.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ymddygiad yn gyson.

**2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae'r gwarchodwr plant yn creu awyrgylch meithringar a gofalgar ac mae'n ymateb i anghenion unigol y plant yn eithriadol o dda.

Roedd y gwarchodwr plant yn ofalgar ac yn gariadus gyda'r plant yn ei gofal. Gwnaeth gofnodi cyflawniadau a gweithgareddau mewn dyddiaduron dyddiol er mwyn rhannu llwyddiannau'r plant â'r rhieni. Roedd y dyddiaduron yn bersonol ac yn fanwl er enghraifft; roedd un darn yn cofnodi pa mor garedig yr oedd un plentyn wedi bod tuag at y plant eraill tra bod darn arall yn nodi “Gallu rheoli’r brwsh paent yn rhagorol.” (can control the paint brush excellently).  Roedd hi hefyd yn cofnodi'r hyn yr oedd y plant yn ei fwyta; p'un a oeddent wedi cysgu'n dda ac wedi cymryd rhan mewn ymarferion tân neu beidio. Roedd y gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn ei gofal yn dda a dangosodd yr hyn y byddai pob plentyn yn dewis chwarae ag ef wrth iddynt adael gweithgaredd â ffocws. Roedd hi'n gwybod y byddai un plentyn yn setlo'n gyflym i gwympo i gysgu os byddai'n cael tegan meddal. Hyrwyddodd y gwarchodwr plant ddatblygiad y plant drwy gynllunio amrywiaeth o weithgareddau ysgogol a'u cofnodi yn eu dyddiaduron dyddiol. Gwnaeth gynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar themâu. Y thema bresennol oedd yr hydref ac roedd y gwarchodwr plant wedi paratoi adnoddau a gweithgareddau yn seiliedig arni. Roedd tystiolaeth o weithgareddau’r plant yn seiliedig ar thema'r hydref wedi'u harddangos yn yr ystafell fyw. Roedd y rhain yn cynnwys baneri o ddail yr oedd y plant wedi'u paentio a draenogod yn cuddio mewn dail. Gwnaeth dynnu lluniau o'r gweithgareddau ac ar ddiwedd y thema; rhoddwyd copïau ohonynt i'r plant i fynd â nhw adref.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i gynllunio gweithgareddau diddorol ac ysgogol sy'n hybu chwarae a datblygiad y plant.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel, yn lân ac yn addas iawn i'r plant. Cafodd gwaith crefft y plant ei arddangos yn yr ystafell fyw ac roedd tystiolaeth ffotograffig o amrywiaeth o weithgareddau yn y gegin. Mae gan yr ardal awyr agored amgaeedig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r safle yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y drws ffrynt wedi'i gloi bob amser. Defnyddiwyd dyddiadur y gwarchodwr plant yn rheolaidd i gofnodi'r bobl sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Roedd hi'n cadw ei chartref yn lân, yn daclus ac ar dymheredd cyfforddus. Roedd y gwarchodwr plant wedi cynnal asesiad risg mewn perthynas â'r holl ardaloedd a ddefnyddir gan y plant ac roedd ganddi gofnodion ohonynt. Roedd cyfarpar diogelwch megis giatiau grisiau ar waith ar waelod y grisiau yn ogystal ag amddiffynnwr tân o amgylch y tân yn yr ystafell fyw. Roedd yr ardal awyr agored yn gwbl amgaeedig.

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau trylwyr i gadw'r amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r safle yn groesawgar iawn ac mewn cyflwr da.

Roedd digon o le a chyfleusterau ar y safle a gallai'r plant fynd i nôl teganau ac adnoddau'n hawdd. Roedd y safle yn lân, yn gyfforddus ac wedi'i addurno'n dda. Roedd cadeiriau uchel a seddi 'booster' ar gael fel y gall y plant eistedd wrth fwrdd y gegin. Roedd gris ar gael yn y toiled lawr llawr a oedd yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r sinc i olchi eu dwylo'n annibynnol. Ar y llawr uchaf, roedd cotiau ar gael i alluogi'r plant i gysgu'n gyfforddus. Roedd gan bob plentyn dywel llaw unigol. Y tu allan, roedd gan y plant fynediad i ardal laswelltog â ffrâm fawr gydag amrywiaeth o siglenni, tŷ chwarae plastig, sleid, teganau reidio a siglo, whilberi a bwrdd bach â chadeiriau. Ni wnaeth y plant chwarae yn yr ardd yn ystod ein hymweliad oherwydd y tywydd garw ond gwelsom dystiolaeth ffotograffig. Roedd holiaduron y plant yn nodi “Gardd Gaynor fel parc - joio tŷ bach twt.”

Mae'r amgylchedd yn addas iawn i blant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod cyfarpar ac adnoddau addas ar gael i'r plant.

Roedd y teganau yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd yr ystafell fyw yn cynnwys amrywiaeth eang o gyfarpar a oedd yn addas i ofalu am y plant ac a oedd yn hawdd i'r plant gael gafael arnynt. Roedd y gwarchodwr plant hefyd yn storio teganau fyny'r grisiau ac yn eu newid o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth. Roedd digon o ddeunyddiau ar gael ar gyfer gweithgareddau crefft ac roedd gwaith y plant yn cael ei arddangos. Roedd amrywiaeth eang o gyfarpar ac adnoddau ar gael i chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Roedd y gwarchodwr plant wedi cofrestru ar gyfer cylchgrawn gweithgareddau'r blynyddoedd cynnar, a oedd yn rhoi syniadau arloesol cyfredol a newydd iddi.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da yn systematig.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn uchel ei chymhelliant ac mae'n amlwg yn mwynhau gofalu am y plant. Mae'n cadw cofnodion a dogfennau ac mae ganddi sgiliau trefnu da. Mae'n aelod o grŵp gwarchodwyr plant Llandysul, yn rhannu arfer da ac yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau newydd. Mae ganddi bartneriaethau ardderchog â'r rhieni ac mae'n chwarae rhan ragweithiol yn y gymuned ehangach.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig i blant hyd at 12 oed.

Roedd y datganiad o ddiben yn glir, yn llawn gwybodaeth ac yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Roedd y rhieni yn hapus â'r wybodaeth y maent yn ei chael am y gwasanaeth. Roedd holl gofnodion a dogfennau gofynnol y plant ar gael ac roeddent yn drefnus. Roedd y gwarchodwr plant wedi cael yr holl ffurflenni angenrheidiol gan y rhieni, fel gwybodaeth bersonol, contractau, cydsyniad ar gyfer gofal meddygol brys a llofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y plant, fel amddiffyn plant, rheoli ymddygiad a pholisi atal radicaleiddio. Roedd y gwarchodwr plant yn adolygu ei pholisïau yn flynyddol ac yn eu diweddaru yn ôl yr angen.

Mae'r arweinyddiaeth yn gryf.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant systemau i adolygu ei gwasanaeth ac mae'n gwerthfawrogi adborth gan y rhieni a'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant wedi rhoi holiaduron i'r rhieni a'r plant yn gofyn am eu hadborth ar ei gwasanaeth. Roedd yr adborth gan y rhieni a'r plant yn gadarnhaol iawn ac yn cynnwys sylwadau megis; “Rwy’n joio popeth a chael hwyl a sbri gyda fy ffrindiau” ac “Rwyf yn llwyr argymell gwasanaeth Gaynor i unrhyw rieni, gan ei bod yn berson mor hawdd i ymdrin â hi. Mae datblygiad fy mhlentyn, ynghyd â’i annibynrwydd wedi blaguro cymaint ers bod yn ei chwmni. Mae bob tro yn gadael gyda gwên enfawr ar ei hwyneb, yn amlwg wedi cael profiadau arbennig.” Dywedodd un rhiant y byddent yn argymell y gwarchodwr plant i rieni eraill, gan ei fod yn hawdd ymgysylltu â hi. Roedd yn teimlo fod ei blentyn yn datblygu'n dda ac yn meithrin annibyniaeth. Roedd ei blentyn yn gadael cartref y gwarchodwr plant yn hapus bob amser ac yn amlwg yn cael profiadau gwych. Roedd yr adroddiad ansawdd y gofal ar gyfer 2018 yn fanwl ac yn canolbwyntio ar bob agwedd ar ymarfer y gwarchodwr plant. Er enghraifft, roedd y gwarchodwr plant wedi cofrestru â'r asiantaeth safonau bwyd ac yn cadw cofnod o'r

bwyd a roddir, tymheredd y bwyd a thymereddau'r oergell a'r rhewgell. Mae cyfarpar newydd wedi'i brynu ar gyfer yr ardal awyr agored.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwerthuso ei gwasanaeth.

**4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?**

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o brofiad a chymwysterau gofal plant perthnasol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ym maes diogelu, cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd a gwnaeth fynychu cynhadledd gofal plant flynyddol yn ddiweddar. Mae wedi mynychu sawl cwrs arall gan gynnwys; datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant ifanc, technegau ymlacio, 'traed prysur' a chwarae yn yr awyr agored. Mae hi'n sicrhau ei bod yn meddu ar y wybodaeth gyfredol am ymarfer da. Roedd gan y gwarchodwr plant dystysgrif yswiriant atebolrwydd ddilys ac roedd ei holl ddogfennau ar gyfer ei char yn gywir. Roedd gan y gwarchodwr plant ddau warchodwr plant arall wrth gefn mewn argyfwng. Mae'r gwarchodwyr plant yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn galluogi'r plant y maent yn gofalu amdanynt i gymdeithasu ac maent yn gyfarwydd â'r tri gwarchodwr plant. Roedd gan bawb dros 16 oed sy'n byw ar yr aelwyd dystysgrifau dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei busnes yn systematig ac yn drefnus iawn.

**4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?**

Roedd gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni, grwpiau chwarae lleol a gwarchodwyr plant eraill yn y gymuned.

Roedd ganddi gydberthynas waith gadarnhaol â'r rhieni ac yn rhoi adborth ysgrifenedig yn llyfrau unigol y plant. Roedd y gwarchodwr plant hefyd yn rhoi lluniau o weithgareddau eu plant i'r rhieni ar ddiwedd thema. Dywedodd y rhieni; "Mae gan fy mhlentyn ddyddiadur sydd yn cael ei lenwi'n ddyddiol. Yn ogystal rydyn yn derbyn adborth ar lafar dyddiol" a "Mae'n dod nôl â nifer o eitemau celf yn wythnosol. Rydyn yn derbyn llu o luniau ohono yn gwneud y gwahanol weithgareddau." Roedd y rhieni yn hapus â'r dyddiaduron dyddiol a'r adborth ar lafar. Roeddent yn derbyn gwaith celf eu plant yn wythnosol yn ogystal â lluniau o'u plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae hi'n aelod gweithredol o grŵp gwarchodwyr plant Llandysul ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu arfer da a threfnu gweithgareddau a digwyddiadau yn y gymuned. Er enghraifft, trefnodd y gwarchodwyr plant daith gerdded noddedig gan godi £600 ar gyfer elusen ganser plant. Mae hi'n mynd â'r plant i grwpiau chwarae lleol, canolfannau chwarae meddal, y parc ac i gerdded ar hyd afon leol. Mae hi'n helpu'r plant i greu bocsys y cynhaeaf â ffrwythau a llysiau fel y gall y plant eu rhoi i wahanol achosion lleol. Mae hi'n sicrhau bod y plant yn parhau i fod yn rhan o'r gymuned.

Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaeth gadarnhaol iawn â'r rhieni ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar y gymuned ehangach.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dim

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd cyfnod byr o rybudd i'r gwarchodwr plant ar gyfer yr arolygiad. Rhoddwyd adborth dros y ffôn.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 19 Medi 2018 am gyfanswm o 4 awr. Gwnaethom;

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Person Cofrestredig | Hannah Richards |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 4 |
| Ystod oedran y plant | 0-12 oed |
| Oriau agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 8am – 6pm |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 19 Medi 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |